

Refferendwm yr UE: Diweddariad i ymgyrchwyr Rhif 4

Rhagfyr 2015

Ymunwch â'n rhestr ddiweddaru

Gallwch gofrestru i dderbyn y
diweddariadau hyn ar ein
[gwefan](#) neu drwy ffonio 0333
103 1929

Mae Llywodraeth y DU
wedi cyflwyno deddfwriaeth
i gynnal refferendwm ar
aelodaeth y DU o'r UE
erbyn diwedd 2017. Nid yw
union ddyddiad y
refferendwm yn hysbys eto.

Mae'r Bil, sy'n nodi sut y
caiff y refferendwm ei
gynnal a'r rheolau y mae'n
rhaid i ymgyrchwyr eu dilyn,
bellach wedi derbyn
Cydsyniad Brenhinol.

Ni sy'n rheoleiddio arian a
gwariant gwleidyddol. Ein
nod yw sicrhau uniondeb a
thryloywder o ran cyllid a
gwariant ar ymgyrchu i
bleidleiswyr.

Rydym yn cofrestru
ymgyrchwyr ac yn
rheoleiddio eu gwariant a'u
rhoddion mewn refferenda.

Byddwn yn cyhoeddi
canllawiau i ymgyrchwyr ac
yn parhau â'r
diweddariadau hyn i'ch
hysbysu'n rheolaidd.

Ynglŷn â'r diweddariad hwn

Mae'r diweddariad hwn yn seiliedig ar Ddeddf Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (y Ddeddf). Roedd ein diweddariadau cynharach yn seiliedig ar Fil Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd (y Bil), sydd wedi bod yn destun nifer o ddiwygiadau ar ei hynt drwy'r Senedd. Mae'r wybodaeth a roddir yn y diweddariad hwn yn seiliedig ar y geiriad terfynol, felly gallai fod yn wahanol i ddiweddariadau cynharach.

Mae'r pedwerydd diweddariad hwn yn ymdrin â'r canlynol:

- statws y Ddeddf
- sut rydym yn cyhoeddi ein canllawiau
- etholiadau Mai 2016: etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon
- cyfrif pleidleisiau refferendwm yr UE
- elusennau yn ymgyrchu yn y refferendwm
- ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth

Statws y Ddeddf

Derbyniodd [y Ddeddf](#) Gydsyniad Brenhinol ddydd Iau, 17 Rhagfyr 2015, ar ôl iddo fynd ar ei hynt drwy'r Senedd. Gwnaethom ddarparu briffiadau ar y Bil ac mae'r rhain i'w gweld [yma](#).

Nid yw'r Ddeddf wedi'i dwyn i rym eto a bydd y llywodraeth hefyd yn llunio rheoliadau er mwyn rhoi rhagor o fanylion am y rheolau i ymgyrchwyr, gan gynnwys amseroedd ar gyfer y

broses ddynodi, hyd cyfnod y refferendwm a dyddiad y refferendwm. Rydym wedi cyhoeddi asesiad cyfredol o'n gwaith paratoi a'n parodrwydd i ddarparu Refferendwm yr UE. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar yr is-ddeddfwriaeth ac asesiad diwygiedig o'n parodrwydd ar ein gwefan a thrwy'r diweddariadau hyn.

Sut rydym yn cyhoeddi ein canllawiau

Rydym yn cyhoeddi ein canllawiau ar gyfer Refferendwm yr UE mewn camau. Mae hyn am nad yw'r Ddeddf yn amlinellu'r holl reolau. Bydd y llywodraeth yn cychwyn ar ddarpariaethau'r Ddeddf ar yn ddiweddarach a bydd hefyd yn llunio rheoliadau sy'n amlinellu rheolau a dyddiadau ychwanegol. Ni wyddom eto pryd y bydd y llywodraeth yn cychwyn ar y darpariaethau nac yn llunio'r rheoliadau, ond byddwn yn cyhoeddi canllawiau yn fuan ar ôl hynny. Mae'n bwysig nodi nad yw'r llywodraeth wedi cychwyn ar y darpariaethau cofrestru hyd yma ac **ni all ymgyrchwyr gofrestru â ni nes y bydd hyn yn digwydd.**

Byddwn yn cyhoeddi canllawiau cychwynnol ar ddechrau mis Ionawr. Bydd y canllawiau hyn yn egluro rheolau'r refferendwm a amlinellir yn y Ddeddf, sut i gofrestru a'r broses ddynodi. Bydd y canllawiau ar y [dudalen](#) hon. Maent yn ymdrin â'r canlynol:

- Trosolwg o'r rheolau
- Sut i gofrestru fel ymgyrchydd
- Y broses ddynodi

Bydd y cam nesaf o ganllawiau, a gaiff eu cyhoeddi gennym ar ôl i'r rheoliadau ychwanegol gael eu

cyflwyno gerbron y Senedd, yn cwmpasu:

- Amserlenni a dyddiadau cau
- Rheoli gwariant
- Cydweithio ag ymgyrchwyr refferendwm eraill
- Y rheolau ar roddion a benthyciadau
- Gofynion adrodd cyn etholiad
- Cyrff cyhoeddus a deunydd ar gyfer refferendwm

Etholiadau Mai 2016: etholiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Senedd yr Alban a Chynulliad Gogledd Iwerddon

Dylai ymgyrchwyr sydd eisoes yn ymgyrchu ar gyfer canlyniad yn refferendwm y DU fod yn ymwybodol fod cyfnod a reoleiddir hefyd ar gyfer yr etholiadau canlynol, sy'n dechrau ar 5 Ionawr 2016 ac yn gorffen ar y diwrnod pleidleisio ar 5 Mai 2016:

- Senedd yr Alban
- Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd yng Nghymru
- Cynulliad Gogledd Iwerddon

Mae'r cyfnod a reoleiddir ond yn gymwys i'r Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon.

Mae rheolau ymgyrchu y rhai nad ydynt yn bleidiau yn gymwys i wariant ar fathau penodol o weithgarwch ymgyrchu.

Gallai gwario ar ymgyrchu ar gyfer y refferendwm gael ei reoleiddio yn ystod y cyfnod cyn etholiadau mis Mai 2016 os gellir ystyried yn rhesymol mai bwriad y gweithgarwch yw dylanwadu ar bleidleiswyr dros neu yn erbyn pleidiau gwleidyddol neu categorïau o ymgeiswyr, gan gynnwys pleidiau gwleidyddol neu categorïau o ymgeiswyr sydd o blaid neu yn erbyn polisïau neu faterion penodol (gelwir hyn yn 'brawf diben') mewn etholiadau.

Yn ogystal â bodloni'r prawf diben, mae'n rhaid i'r gwariant fod wedi'i anelu at y cyhoedd, neu wedi ei weld neu ei glywed ganddynt, neu yn ymwneud â hwy (gelwir hyn yn 'brawf cyhoeddus').

Er mwyn asesu a yw eich ymgyrch yn bodloni'r prawf diben, dylech ystyried y canlynol:

Tôn. Er enghraifft, a yw tôn eich ymgyrch yn negyddol neu'n gadarnhaol tuag at blaid neu bleidiau gwleidyddol, neu categori o ymgeisydd, neu bolisi y mae plaid neu categori o ymgeisydd yn ei gefnogi neu ddim yn ei gefnogi?

Cyd-destun ac amser. Mae refferendwm y DU yn debygol o fod yn broblem amlwg lle mae ardaloedd o wahaniaeth clir rhwng pleidiau gwleidyddol. Dylech ystyried p'un a ydych yn ymgyrchu mewn ymateb i bolisi neu safle plaid wleidyddol. A ydych yn ymgyrchu yn agos at ddyddiad etholiad (gallai ymgyrchu yn agos at etholiad ei gwneud yn fwy tebygol y byddwch yn pasio'r prawf diben)?

Galw am weithredu. Er enghraifft, a yw eich ymgyrch yn gofyn i bobl (naill ai'n benodol neu ymhlyg) i bleidleisio dros blaid neu bleidiau

gwleidyddol neu gategori o ymgeisydd mewn etholiad?

Sut y byddai unigolyn rhesymol yn ystyried eich gweithgaredd. A fyddai unigolyn rhesymol yn ystyried mai bwriad eich ymgyrch yw dylanwadu ar ddewis pobl o ran pleidleisio yn etholiadau mis Mai?

Dylid ystyried y ffactorau hyn yn eu cyfanrwydd yn hytrach nag yn unigol. Os yw'r atebion i'r cwestiynau hyn yn gadarnhaol at ei gilydd, mae'n fwy tebygol y bydd eich gweithgarwch yn bodloni'r **prawf diben**.

Ceir rhagor o wybodaeth am y rheolau i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau yn ein [canllawiau](#).

[Cysylltwch â ni](#) am gyngor os byddwch yn gwario ar ymgyrchu a allai ddod o dan y rheolau i ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau.

Cyfrif pleidleisiau yn refferendwm yr UE

Ar 28 Awst, cychwynnodd y Prif Swyddog Cyfrif (CCO) a Chadeirydd y Comisiwn Etholiadol, Jenny Watson, [ymgyngoriad ar y dull arfaethedig o reoli refferendwm yr UE](#). Ystyriodd yr ymgyngoriad y broses o amseru a chyfrif y pleidleisiau, yn benodol drwy geisio barn pleidleiswyr, darlledwyr, ymgyrchwyr a phleidiau gwleidyddol ar gyfarwyddyd posibl i Swyddogion Cyfrif er mwyn sicrhau y caiff y gwaith o ddilysu a chyfrif y pleidleisiau yn y refferendwm ei ddechrau cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl ar ôl y cyfnod pleidleisio.

Wrth gyhoeddi ei hymateb i'r ymgyngoriad, eglurodd y Prif Swyddog Cyfrif y bydd yn darparu

cyfarwyddiadau a fydd yn cynnwys y canlynol:

- cadarnhau y dylid cynnal y prosesau cyfrif dros nos, gan ddechrau ar ddiwedd y cyfnod pleidleisio (10pm)
- mae'n rhaid i'r papurau pleidleisio fod yn wyn
- ni ddylid neilltuo mwy na 2,500 o etholwyr i orsaf pleidleisio
- rhaid i Swyddogion Cyfrif roi trefniadau ar waith sy'n sicrhau y caiff pecynnau pleidleisio drwy'r post tramor a'r DU eu hanfon mewn da bryd

Mae'r ymateb llawn ar gael [yma](#).

Mae'r Comisiwn hefyd wedi cyhoeddi'n ddiweddar y caiff canlyniad y refferendwm terfynol ei gyhoeddi ym Manceinion. Gallwch gael rhagor o wybodaeth [yma](#).

Ble y gallwch gael rhagor o wybodaeth

Rydym bob amser yn hapus i roi cyngor i ddarpar ymgyrchwyr ar sut i gydymffurfio â'r rheolau. Cysylltwch â ni ar 0333 103 1929 pef@electoralcommission.org.uk

Neu defnyddiwch y cyfeiriadau e-bost isod:

- Lloegr: pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban: infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Cymru: 0333 103 1929 gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

- Gogledd Iwerddon:
infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

I gael gwybodaeth arall am y refferendwm

Ar ein gwefan,
www.comisiwnetholiadol.org.uk,
gallwch gael:

- rhagor o wybodaeth am ein rôl mewn refferenda
- ein hegwyddorion allweddol ar gyfer cynnal refferenda
- ein dull o asesu cwestiynau'r refferendwm
- ein canfyddiadau ar gwestiwn y refferendwm
- briffiadau ar y Bil sy'n egluro ein safbwynt ar ddarpariaethau lle bo'n briodol